**Mabon ap Gwynfor AS/MS**
**Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal**
**Cabinet Minister for Health and Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MG/06237/26

Elin Walker Jones

AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

14 Medi 2026

Annwyl Elin Walker Jones,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Awst ar ran Cyngor Gwynedd ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod ar y lefel uwchgyfeirio uchaf yn GIG Cymru ers mis Chwefror 2023 oherwydd pryderon sylweddol ynghylch llywodraethu, arweinyddiaeth, diogelwch cleifion, a pherfformiad. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud gan y bwrdd iechyd, gwyddom fod heriau parhaus wrth ddarparu gofal diogel, amserol, ac effeithiol i bobl yn y Gogledd.

Fel rhan o lefel uwchgyfeirio 5, mae'r bwrdd iechyd yn destun mwy o oruchwyliaeth a chraffu gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chymorth wedi'i dargedu i yrru'r gwelliannau angenrheidiol mewn gofal a’r ddarpariaeth o wasanaethau i gleifion. Mewn datganiad i'r Senedd ar 30 Mehefin, cyhoeddais fesurau newydd i sefydlogi gwasanaethau, cryfhau arweinyddiaeth, a sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn atebol am weithredu gwelliant parhaus, fel rhan o'r trefniadau uwchgyfeirio lefel 5 sy'n parhau yn y bwrdd iechyd.

Bydd hyn yn cynnwys cymorth wedi'i dargedu'n uniongyrchol gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru, gan ddod ag arbenigwyr gweithredol a chlinigol ynghyd i yrru gwelliant brys gyda ffocws ar y meysydd risg mwyaf dybryd sy'n effeithio ar y sefydliad ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu adolygiad o ansawdd arweinyddiaeth a fydd yn rhoi darlun llawn o sefyllfa bresennol y bwrdd iechyd, gan gynnwys heriau gweithredol, arweinyddiaeth, a diwylliant. Mae panel arbenigol, a benodwyd yn genedlaethol, bellach wedi dod at ei gilydd i gynnal yr adolygiad.

Welsh Government Offices, Cathays Park,
Cardiff. CF10 3NQ
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd. CF10 3NQ


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mabon.apGwynfor@llyw.cymru
Correspondence.Mabon.apGwynfor@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Disgwylir i adroddiad terfynol yr adolygiad o arweinyddiaeth gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2026. Rwyf wedi bod yn glir fy mod yn disgwyl i'r adroddiad hwn ddarparu argymhellion clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau tryloywder ynghylch y newidiadau sydd eu hangen er mwyn fy helpu i benderfynu ar y camau nesaf mwyaf priodol ar gyfer gweld gwelliannau'n cael eu cyflawni er budd pobl y Gogledd.

Yn gywir,



**Mabon ap Gwynfor AS**
Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal
Cabinet Minister for Health and Care